**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

10 Hydref 2023

Annwyl Mick

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

I'n cynorthwyo â'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2023, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rydym yn bwriadu craffu ar y cynigion hyn drwy ohebiaeth yn bennaf, felly byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon rhagor o fanylion am y meysydd a nodir yn yr atodiad erbyn 8 Ionawr 2024.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

## Atodiad

### Cyffredinol

**1.** Dadansoddiad o wariant arfaethedig ar waith yn ymwneud â chyfiawnder o fewn cyllideb ddrafft 2024-25 a chyllidebau dangosol y dyfodol, yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb - refeniw a chyfalaf, gan gymharu'r rhain, pan fo'n berthnasol, â'r gwariant arfaethedig cyfatebol yn 2023-24.

**2.** Disgrifiad naratif manwl o unrhyw wariant arfaethedig ar gyfiawnder yng nghyllideb ddrafft 2024-25 ac unrhyw newidiadau a nodwyd o un flwyddyn i'r llall.

**3.** Crynodeb o unrhyw waith a wnaed i wella lefel y wybodaeth a gyflwynir am y gwariant arfaethedig ar gyfiawnder o fewn y gyllideb ddrafft, a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i strwythur y gyllideb a'r modd y caiff ei chyflwyno o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i hyn.

### Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**4.** Trosolwg o'r gwariant arfaethedig yn 2024-25 ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru gan gynnwys:

- y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio'u sicrhau o ganlyniad i'r gwariant hwn;
- esboniad o'r meysydd gwaith hynny a fydd yn cael blaenoriaeth yn 2024-25; a
- gwybodaeth am y modd y mae'r gwariant arfaethedig hwn yn cymharu â gwariant ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 2023-24.

**5.** Manylion y gwariant arfaethedig ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2024-25.

**6.** Trosolwg o unrhyw adnoddau yng nghyllideb ddrafft 2024-25 i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer system tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru.

### Dyfodol Cyfraith Cymru

**7.** Dadansoddiad o unrhyw wariant arfaethedig o fewn cyllideb ddrafft 2024-25 sy'n ymwneud â rhoi rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd y gyfraith ar waith.